# Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

## 4. Gwirfoddolwyr

## 4.8.1 Asesiadau risg - gwirfoddolwyr sy'n gweithio o'u cartrefi

Nid yw'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch ond yn berthnasol i weithwyr cyflogedig. Ond mae gan eich sefydliad ddyletswydd gofal tuag at wirfoddolwyr (ac eraill).

Mae hyn yn golygu bod angen i chi osgoi achosi, yn ddiofal, niwed nac anaf i wirfoddolwyr. Nid yw'n golygu y bydd gwirfoddolwyr yn gweithio mewn amgylchedd heb ddim risg.

Mae hefyd yn golygu rhoi i wirfoddolwyr y wybodaeth berthnasol a allai effeithio ar eu hiechyd a'u diogelwch.

Beth y mae hyn yn ei olygu i wirfoddolwyr sy'n gweithio'n bennaf o'u cartrefi eu hunain?

### 1. Archwilio eich gwarchodaeth yswiriant

A yw'n cynnwys gwirfoddolwyr sy'n gweithio o'u cartrefi?
A oes unrhyw ofynion penodol, neu eithriadau y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt?

### 2. Canfod y prif risgiau a'r camau gweithredu posib

Rhaid i chi ystyried natur y tasgau i'w cyflawni.  e.e. gwneud galwadau teleffon, tasgau ar y cyfrifiadur, tasgau ymarferol.

Ar gyfer pob rôl, dylech ddechrau drwy wneud rhestr o'r risgiau posib y gallwch chi feddwl amdanynt, gan wneud nodyn o ba mor debygol ydynt o ddigwydd a pha mor ddifrifol y gall y canlyniadau fod. Sylwch hefyd ar y camau gweithredu posib y gellid eu cymryd i ddileu risg neu ei rheoli. Gellid defnyddio'r ffurflen enghreifftiol sydd ynghlwm at y diben hwn (Atodiad 1).

Yna gwnewch benderfyniad am beth y dylai eich blaenoriaethau fod wrth asesu a rheoli'r risgiau pwysig. Byddwch yn penderfynu hyn ar sail

a) Pa mor ddifrifol yw'r risg o niwed
b) Pa mor debygol o ddigwydd ydyw a
c) Pha mor ymarferol ydy rheoli'r risg.

Er enghraifft, os ydych wedi canfod risgiau sy'n berygl bywyd, mae angen rhoi sylw i'r rhain, beth bynnag yw'r gost neu'r anhwylustod i chi. Os ydych wedi canfod risgiau sy'n ddibwys eu canlyniad, yn annhebygol o ddigwydd neu'n lletchwith i roi sylw iddynt – peidiwch â gwastraffu amser arnynt, ond dylech adolygu'r sefyllfa'n rheolaidd.

Yn Atodiad 2 ceir awgrymiadau ar rai meysydd risg posib i chi eu hystyried.

## 3. Cynnal asesiad risg pellach

Gallech gymryd un o'r dulliau gweithredu canlynol:

**a) Trafod gyda'r gwirfoddolwr**
Gan ddefnyddio'r rhestr yr ydych wedi'i llunio o'r prif risgiau sy'n peri pryder i chi, siaradwch gyda'r gwirfoddolwr i asesu'r risgiau ymhellach, fel y bo'n briodol.

Bydd rhai o'r risgiau yr ydych wedi'u rhestru'n cael eu rheoli mewn ffyrdd eraill – ee drwy hyfforddiant sefydlu, neu drwy ddarparu offer diogelwch. Diben y drafodaeth hon yw casglu gwybodaeth berthnasol bellach am, er enghraifft, yr amgylchedd lle bydd y gwirfoddolwr yn gweithio, neu am alluoedd neu wybodaeth benodol y gwirfoddolwr.

Yn sgîl eich trafodaeth, dylech fod yn gallu penderfynu'n well pa gamau y mae angen eu cymryd er mwyn lleihau'r risgiau neu eu rheoli. Gwnewch nodyn o'r camau a gymerir.

**b) Hyfforddi eich gwirfoddolwyr i asesu risg**
Gellid hyfforddi gwirfoddolwyr i gynnal eu hasesiadau risg eu hunain, o bosib gan ddefnyddio rhestr gyfeirio'r ydych chi wedi'i dyfeisio ar gyfer eu rôl.

Byddai'n bwysig eich bod yn gweld yr asesiad gorffenedig ac yn ei drafod a sicrhau y gwneir nodyn o'r camau gweithredu priodol a'u bod yn cael eu cyflawni. Gweler hefyd taflen *4.8 Cadw gwirfoddolwyr yn ddiogel.*

**c) Cynnal eich asesiad risg eich hun yng nghartref y gwirfoddolwr**
Gall hyn fod yn briodol mewn rhai amgylchiadau o bosib – er enghraifft er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn addas neu wedi'i osod yn gywir. Efallai eich bod yn ymweld â'r gwirfoddolwr yn ei gartref ei hun at ddibenion eraill a byddwch yn gallu arsylwi drosoch eich hun, er enghraifft, y cyfarpar a'r amgylchedd gwaith.

Unwaith eto, gallai fod yn ddefnyddiol paratoi rhestr gyfeirio i gofnodi eich canfyddiadau a gwneud nodyn o ba gamau gweithredu a gymerir.

Cofiwch y byddai cynnal asesiad risg yng nghartref gwirfoddolwr heb reswm da yn cael ei ystyried yn ymyriad ar breifatrwydd.

## 3. Adolygu a diweddaru eich asesiad risg yn rheolaidd.

Gallech ei drafod yng nghyd-destun adolygiad un wrth un neu mewn sesiynau goruchwylio gyda'r gwirfoddolwr.

Dylai'r broses fod yn un barhaus. Dylai'r hyn a ddysgwch drwy'r profiad asesu risg ddylanwadu ar eich hyfforddiant sefydlu/ar eich llawlyfr i wirfoddolwyr yn ogystal ag ar eich disgrifiadau o rolau gwirfoddolwyr. Dylai fod yn broses ystyrlon sy'n dangos eich bod yn gofalu am eich gwirfoddolwyr – nid dim ond yn weithdrefn fiwrocrataidd a fwriedir i 'achub croen eich sefydliad'!

### Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.

Rhoddir cyfrifoldebau ar y cyflogwr o safbwynt pobl nad ydynt yn weithwyr cyflogedig iddo, ac y gallai gweithgareddau'r cyflogwr effeithio arnynt – pobl megis gwirfoddolwyr, ac aelodau'r cyhoedd:

*….cyflawni'r ymrwymiad hwn yn y fath fodd er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol bosib, nad yw'r unigolion na chânt eu cyflogi ganddo ond y gellir effeithio arnynt, trwy hynny, yn dod i gysylltiad â risgiau i'w hiechyd na'u diogelwch.*

*…rhoi i'r unigolion (nad ydynt yn weithwyr cyflogedig iddo) y gallai'r modd y mae'n cyflawni'r ymrwymiad hwn effeithio arnynt, y wybodaeth a bennir am y cyfryw agwedd ar y ffordd y mae'n cyflawni ei ymrwymiad ag y gall effeithio ar eu hiechyd neu'u diogelwch.*

**Atodiad 1**

## Canfod risg

Rôl y gwirfoddolwr: _____ Dyddiad: _____

| Risg | Natur y niwed dilynol | Tebygolrwydd (Isel, Canolig, Uchel) | Difrifoldeb (Isel, Canolig, Uchel) | Camau gweithredu i reoli'r risg |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Dyma'r prif gamau gweithredu sy'n angenrheidiol i reoli risg ar gyfer y rôl hon:

**Atodiad 2**

## Rhai cwestiynau i'w hystyried wrth Ganfod Risg

**Y gwirfoddolwr:**

- A oes unrhyw ofynion hanfodol wrth ddethol gwirfoddolwyr ar gyfer y rôl hon – neu unrhyw beth a fyddai'n golygu na ellid lleoli gwirfoddolwr
- A oes gan y gwirfoddolwr unrhyw anghenion neu ofynion arbennig

**Natur y rôl:**

- A oes risg o ymddygiad treisgar neu ymosodol
- A yw cyfrinachedd yn bwysig
- A oes risg o anaf neu niwed corfforol ee codi, straen i'r llygaid (o ddefnyddio sgrin gyfrifiadurol yn ormodol), anaf straen ailadroddus
- A yw'r gwaith yn debygol o fod yn anodd yn emosiynol.

**Yr amgylchedd:**

- A yw'r amgylchedd gwaith yn addas i'r dasg (ee safle gweithio, storfeydd diogel, preifatrwydd)

**Cyfarpar:**

- A yw'r cyfarpar yn briodol, yn ddiogel ac yn addas i'r dasg
- A yw offer gwarchodol/diogelwch yn angenrheidiol

**Arall:**

- A eir i gostau, ac a ellir ad-dalu'r rhain
- A oes ffiniau neu derfynau sylweddol i'r hyn a ddisgwylir yn y rôl hon i wirfoddolwyr

**Rhai camau gweithredu posib i reoli risg neu ei lleihau:**

- Darparu gwybodaeth am ddiogelwch
- Sicrhau y rhoddir goruchwyliaeth / cymorth wrth gefn
- Darparu / archwilio'r offer
- Talu treuliau
- Cytuno ar y gofynion o safbwynt adrodd/ cadw cofnodion
- Cytuno ar/ pwysleisio rhai 'rheolau sylfaenol'
- Hyfforddiant a sefydlu
- Addasu'r rôl-ddisgrifiad
- Llunio / diwygio polisïau sefydliadol

Gweithdrefnau mewn argyfwng

**Ymwadiad**
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

**Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â**

**Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych**
*Canolfan Naylor Leyland , Stryd y Ffynnon , Rhuthun , Sir Dinbych , LL15 1AF*
**Elusen Gofrestredig** *1054322*

**Ffôn:** 01824 702441 office@dvsc.co.uk
**Ffacs:** 01824 705412 www.dvsc.co.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
**Wedi ei ddiweddaru:**04/08/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk